

CYBI (fl. 550), sant

Enw: Cybi

Rhiant: Selyf ab Erbin

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: sant

Maes gweithgaredd: Crefydd

Awdur: John Edward Lloyd

Yn yr achau gwneir ef yn fab Selyf ap Geraint ab Erbin. Ysgrifennwyd ei 'fuchedd' mewn dwy ffurf, yn Lladin, tua'r flwyddyn 1200; rhaid amau eu gwerth, er efallai cywir ei ddisgrifio (fel y gwneir yn y 'fuchedd') yn fab i uchelwr yng Nghernyw a oedd yn ' princeps militae ' (sef penteulu) mewn llys rhwng afonydd Tamar a Llynher - Gelliwig, efallai. Ei brif sefydliad oedd Caer Gybi, lle yr ymgartrefodd rhwng muriau amddiffynfa Rufeinig a ddymchwelasid. Y mae i'r 'clas,' sef y sefydliad mynachaid, a gychwynnwyd ganddo, hanes hir; parhaodd yn eglwys golegol trwy'r Canol Oesoedd - yr oedd ganddi ddeuddeg prebend yn yr 16eg ganrif. Peth cymharol ddiweddar yn perthyn i lôn gwerin ydyw'r traddodiad dymunol a phrydferth yngl n â [Seiriol Wyn](#) a Chybi Felyn yn cyfarfod unwaith bob wythnos yn Clorach, yng nghanol Môn, eithr gall fod yr ansoddair yn cael ei arfer am Gybi ers hen amser. Enwyd Llanybi yn Lley, Llanybi yn Sir Aberteifi, a Llangibby yn sir Fynwy, arno. Yr oedd Ffynnon Gybi yn Sir Gaernarfon yn bur bwysig; dangosid Cadair Gybi yno hefyd. Ceir dwy eglwys yng Nghernyw yn gysegredig iddo - Cuby (gerllaw Tregony) a Duloe. Disgybl iddo ydoedd CAFFO, a goffeir yn Llangaffo (Merthyr Caffo gynt) ym Môn; fe'i lladdwyd ef gan fugeiliaid yn Rhosyr (Niwbwrch). Tachwedd 5 ydyw dydd Cybi, ac weithiau 6, 7, neu 8 Tachwedd.

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

The Lives of the British Saints, ii, 202-15, 49-51

Darllen Pellach

[Darganfyddiad: Buchedd Cybi](#), gwefan Seintiau

Robert Thomas Williams, *Casgliad o hanes Cybi Sant a'i eglwysi (Caernarfon 1880)*

Erthygl Wikipedia: [Cybi](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q3399340](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

